OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3573

## Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr Asiantaeth" ("*the Agency*") yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd;

mae i "awdurdod bwyd" yr ystyr a roddir i "*food authority*" yn rhinwedd adran 5(1A) o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2006/141/EC ar fformiwlâu babanod a fformiwlâu dilynol ac sy'n diwygio Cyfarwyddeb 1999/21/EC; ac

ystyr "system gofal iechyd" ("*health care system*") yw cyrff neu sefydliadau sy'n ymwneud, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â gofal iechyd i famau, babanod a menywod beichiog, ac mae'n cynnwys meithrinfeydd neu sefydliadau gofal plant a gweithwyr iechyd mewn practis preifat.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn, ac eithrio un a ddiffinnir ym mharagraff (1), ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliadau hyn ac yn y Ddeddf yr ystyr a roddir i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol hwnnw yn y Ddeddf.

(3) Er gwaethaf paragraff (2), mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Gyfarwyddeb yr ystyr a roddir i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol hwnnw yn y Gyfarwyddeb.

(4) Pan fo unrhyw swyddogaethau o dan y Ddeddf yn cael eu neilltuo—

(a) drwy orchymyn o dan adran 2 neu 7 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), i awdurdod iechyd porthladd; neu

(b) drwy orchymyn o dan adran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936(**2**), i gyd-fwrdd ar gyfer dosbarth unedig;

mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at awdurdod bwyd i'w ddehongli, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny, fel cyfeiriad at yr awdurdod y maent wedi'u neilltuo felly iddo.

(5) Yn y Rheoliadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at Atodiad â Rhif yn gyfeiriad at yr Atodiad sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Gyfarwyddeb.

(6) Yn y Rheoliadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at Atodiad i'r Gyfarwyddeb yn gyfeiriad at yr Atodiad hwnnw fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

(**1**) 1984 p.22; amnewidiwyd adran 7(3)(d) gan baragraff 27 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p.16).
(**2**) 1936 p.49; mae adran 6 i'w darllen gyda pharagraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.